**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref : OAQ51940

Sian Gwenllian AC

Sian.Gwenllian@assembly.wales

27 Mawrth 2018

Annwyl Sian

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn cysylltiad â'ch cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mawrth i Weinidog yr Amgylchedd, ynghylch eich cais i gwrdd â hi er mwyn trafod pryderon pysgotwyr a'r posibilrwydd o ohirio'r broses o gyflwyno is-ddeddfau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r mater a godwyd yn rhan o'm portffolio i.
Fel y gwyddoch, cefais gais swyddogol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 20 Chwefror i gymeradwyo'i is-ddeddfau arfaethedig ar gyfer pysgodfeydd i gyfyngu ar bysgota eog a sewin yn unol â'r broses a nodir yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991. Gallaf eich sicrhau fy mod yn gwybod am bryderon grwpiau genweirio.

Rwyf wedi trafod y mater â Gweinidog yr Amgylchedd ac rydym ni'n dau'n cytuno y byddai'n amhriodol i'r un neu'r llall ohonom gwrdd i drafod y mater ag unrhyw barti ar hyn o bryd.

Yn gywir
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.